

WelTAG 2017 – Canllawiau Atodol Cyd-destun Deddfwriaethol

Diben y nodyn canllaw atodol hwn yw darparu rhestr o'r darnau allweddol o ddeddfwriaeth y mae'n rhaid eu hystyried trwy gydol broses WelTAG ar gyfer ei defnyddwyr.

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

Rhaid i ddefnyddwyr WelTAG gydymffurfio â'r dyletswyddau a amlinellir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Mae'r ddolen i Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 isod:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/contents/made>

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Rhaid i ddefnyddwyr WelTAG ddilyn y dyletswyddau a amlinellir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan gynnwys Safonau'r Gymraeg.

Mae dolenni i Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg isod:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/1/contents/enacted>

<http://www.comisiynyddygybraeg.cymru>

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Wrth ddilyn WelTAG, mae'n bwysig ystyried y dyletswyddau a amlinellir yn Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

Yn y Ddeddf, mae 'taith teithio llesol' yn golygu taith a wneir i weithle neu sefydliad addysgol neu yn ôl, neu daith a wneir er mwyn cael mynediad at wasanaethau neu gyfleusterau iechyd neu hamdden – neu at wasanaethau neu gyfleusterau eraill.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol 'gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer cerddwyr a beicwyr ac ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr wrth gyflawni rhai swyddogaethau eraill ... a hyrwyddo teithiau teithio llesol a sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a'r cyfleusterau cysylltiedig'.

Mae'r ddolen i Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 isod:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2013/7/contents>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rhaid i egwyddorion, nodau ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fod yn rhan gyfannol o holl brosesau WeITAG.

Mae'r ddolen i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 isod, fel y mae dolen i 'Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' a gwefan Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents>

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?lang=cy>

<https://futuregenerations.wales/>

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Rhaid i ddefnyddwyr WeITAG ystyried y dyletswyddau a amlinellir yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Mae'r ddolen i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 isod:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/4/contents>

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Wrth ddefnyddio WeITAG, mae'n rhaid i ddefnyddwyr ddilyn y dyletswyddau a amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gan gynnwys rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae dolen i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 isod:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted>